## ADRAN A

1 Yn y sgwâr hud hwn, cyfanswm pob rhes, colofn a chroeslin yw 2001.
Beth yw'r rhif coll?


| | | |
|---|---|---|
| | ? | 666 |
| 998 | | |
| | | 999 |

a) 335 b) 336 c) 668 ch)1000 d) 1001

2 Beth yw'r digid olaf yn yr ateb i 15967 x 34283 ?

a) 1 b) 2 c) 3 ch) 4 d) 5

3 Trefnir 15 sgwâr fel hyn. Mae pry bach yn cerdded ar hyd ymylon y sgwariau gan gadw sgwâr du ar ei ochr chwith ar hyd y daith. Hyd ymyl pob sgwâr yw 10cm. Faint yw hyd y daith fyrraf o gornel A i gornel B?





a) 80cm b) 90cm c) 100cm ch) 110cm d) 120cm

4 Pan ofynnwyd i'r athro faint oedd ei oed dywedodd fod gweddill o 1 wrth rannu ei oed gyda'r rhifau 2, 3, 4 a 6. Nid oedd gweddill wrth rannu ei oed gyda 7. Faint oedd ei oed?

a) 21 b) 35 c) 41 ch) 49 d) 63

5 Beth yw'r rhif coll?





a) 1 b) 2 c) 4 ch) 5 d) 0

6 Mae Sion a Sian yn rhedeg ras i fyny'r grisiau. Gall Sion ddringo 3 gris yn yr un amser y mae Sian yn dringo 4 gris. Mae 76 gris o waelod y grisiau i'r top. Mae Sian yn cychwyn o'r gwaelod a Sion yn cychwyn o'r 15fed gris i fyny, y ddau ar yr un pryd. Sawl gris sydd ar ôl gan Sion pan fydd Sian yn cyrraedd y top?


a) 4 b) 3 c) 2 ch) 1 d) Mae Sion wedi cyrraedd y top o flaen Sian

7 Dyma 4 rhwyd ar gyfer gwneud disiau. Pa ddau ddis sydd yn union yr un fath?




a) A, B b) A, D c) B, C ch) A, C d) B, D


8 Mae'r rhifau tai ar ein hochr ni o'r stryd i gyd yn odrifau, gan ddechrau â'r rhif 1.
Rhif ein tŷ ni yw 37. Pe byddant wedi dechrau rhifo o ben arall y stryd, rhif ein tŷ ni fyddai 19.





Sawl tŷ sydd ar ein hochr ni o'r stryd?

a) 18 b) 28 c) 29 ch) 55 d) 56

9 Mae cwpan yn cael ei lenwi â dŵr o dap sy'n llifo'n gyson. Dyma siâp y cwpan.



Pa graff sy'n disgrifio orau lefel y dŵr yn codi?




a) b) c) ch) d)

10 Mae'r tri thriongl hyn, sydd ar batrwm bathodyn yr Urdd, yn union yr un maint. Mae gwahanol ffracsiynau ohonynt wedi'u lliwio. Pa ffracsiwn o driongl C sydd wedi'i liwio?

a) 1/3 b) 2/7 c) 5/7 ch) 1/2 d) 5/12

11 Mae'r rhif isod yn cynnwys 14 digid, sef dau 1, dau 2, dau 3, dau 4, dau 5, dau 6 a dau 7.

Mae un digid rhwng y ddau 1, dau ddigid rhwng y ddau 2, tri digid rhwng y ddau 3, pedwar digid rhwng y ddau 4 ac felly ymlaen hyd at saith digid rhwng y ddau 7.


Beth yw'r digid coll?



1 _ _ _ _ ? _ _ _ _ _ _ _ 3 5

a) 2 b) 3 c) 4 ch) 6 d) 7

## ADRAN B



1 Pentomino yw siâp sy'n cynnwys pum sgwâr. Dyma un enghraifft o bentomino:



Nid yw  na  yn

bentominos gan nad yw ochrau'r sgwariau yn cyffwrdd yn gyfan, sgwâr wrth sgwâr.

Sawl pentomino gwahanol fedrwch chi ei ddarganfod? Cofiwch wneud yn siwr fod y siapiau i gyd yn wahanol. Os yw un siâp yn gallu ffitio'n union ar ben un arall, yna nid yw'r siapiau hynny yn wahanol. Er enghraifft, nid yw

 yn wahanol i 

Tynnwch lun o'r pentominos ar y papur sgwariau.

2 Y digid olaf yn y rhif 2 yw 2
Y digid olaf yn y rhif $2^2$ yw 4 gan fod $2^2 = 4$
Y digid olaf yn y rhif $2^3$ yw 8 gan fod $2^3 = 8$
Y digid olaf yn y rhif $2^4$ yw 6 gan fod $2^4 = 16$

Ymchwiliwch y patrwm ymhellach.

Beth yw'r digid olaf yn y rhif $2^{100}$?

Beth yw'r digid olaf yn y rhif $3^{100}$?
Beth yw'r digid olaf yn y rhif $5^{100}$?
Beth yw'r digid olaf yn y rhif $8^{100}$?